


Anrhydeddus Gymdeithas  
Y Cymmrodorion  
Sefydlwyd 1751



The Honourable Society  
Of Cymmrodorion  
Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2013**  
**CYFLWYNWYD I'R CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**  
**13 MAI 2014**

Cynhaliwyd deg darlith yn ystod y flwyddyn galendr 2013. Roedd y rhain yn cynnwys darlith flynyddol goffa June Gruffydd a gynhaliwyd ar y cyd â Chymdeithas Sir Drefaldwyn a'r ddarlith flynyddol yn y Gymraeg gyda chymorth Cymdeithas y Gwyneddigion a Fforwm Cymry Llundain. Cynhaliwyd y darlithiau yn Llundain ac eithrio y ddarlith a draddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych.

**Dydd Mawrth 15 Ionawr 2013**

*Profits in their own country; entrepreneurial activity in the lower Rhondda during the coal boom.*

Yr Athro Richard Griffiths

Yn y Gadair: Yr Athro John Elliott

**Dydd Mawrth 5 Chwefror 2013 (ar y cyd â Chymdeithas Sir Drefaldwyn)**

*The Old Welsh landed gentry and their world: does extinction beckon?*

Tom Lloyd, Herodr Arbenigol Cymru

Yn y Gadair: Gwenda Sippings

**Dydd Mawrth 12 Mawrth 2013**

*The Welshness of Goronwy Rees*

Jenny Rees

Yn y Gadair: Peter Jeffreys

**Dydd Mawrth 16 Ebrill 2013**

*Origins, values and benefits of four cultural projects in Wales – Artes Mundi, National Botanic Garden of Wales, Aberglasney and Plas Llanelly House.*

William Wilkins, Cyfarwyddwr Artes Mundi

Yn y Gadair: Yr Athro Stuart Cole

### **Dydd Mawrth 14 Mai 2013**

*Be nature our law and fair woman our book 'cared doeth yr encilion': the wit and wisdom of two William Joneses?*

Yr Athro Michael Franklin, Prifysgol Abertawe.

Yn y Gadair: Jenkin Thomas

### **Dydd Mercher 12 Mehefin 2013 (ar y cyd â Chymdeithas Cymry Llundain)**

*Cymru a'r Byd yn y 19fed ganrif: y Gwyddoniadur Cymreig*

Yr Athro Robert Evans, Athro Brenhinol Hanes, Prifysgol Rhydychen

Yn y Gadair: Yr Athro Prys Morgan

### **Dydd Llun 6 Awst 2013 yn yr Eisteddfod Genedlaethol**

*Fron-Goch: Prifysgol Rhyddid Iwerddon*

Lyn Ebenezer

Yn y Gadair: Yr Athro Prys Morgan

### **Dydd Mawrth 24 Medi 2013**

*Lord Howard de Walden: Wales's forgotten hero*

Yr Athro Hazel Walford Davies, Prifysgol Aberystwyth

Yn y Gadair: Ceridwen Roberts

### **Dydd Mawrth 22 Hydref 2013**

*The Wye Tour and its artists*

Julian Mitchell

Yn y Gadair: Yr Athro prys Morgan

### **Dydd Mawrth 19 Tachwedd 2013**

*How Welsh was Mrs Piozzi? Issues of being Welsh in the eighteenth century*

Dai Morgan Evans

Yn y Gadair: Arwyn Lloyd Hughes

Dymuna'r Cyngor ddiolch i'r holl ddarlithwyr a'r rhai a gymerodd y Gadair. Nodwyd safon uchel y darlithiau a draddodwyd i gynulleidfaodd niferus – niferus iawn ar brydiau.

Dymuna'r Cyngor ddiolch i staff y *Medical Society of London* lle y cynhaliwyd darlithiau Saesneg Llundain ac i staff Canolfan Cymry Llundain am eu cymorth gyda'r ddarlith Gymraeg a draddodwyd yn y Ganolfan. Mae'r Cyngor hefyd yn ddiolchgar i'r cymorth a gafwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Dinbych ac i'r nifer o unigolion sy'n cynrychiolodd y Gymdeithas ar gyffwrdd cyhoeddus yng Nghymru yn ystod 2013.

Cyhoeddwyd Trafodion 2012 a danfonwyd cyfrol i unigolion a sefydliadau ym Mhrydain a thramor sydd a'u henwau ar gronfa ddata y Gymdeithas. Dymuna'r Cyngor ddiolch i'r holl gyfranwyr ac i roi ar goedd ei diolch am y gwaith a gyflawnwyd gan y Golygydd Mygedol.

Unwaith eto, mae'r Cyngor yn cydnabod yr anhawster o addasu darlithiau gyda chynnwys gwledol helaeth i ddarlth ysgrifenedwy ac am hyn, mae'r Cyngor wedi cytuno y dylid cael cysylltiad cyson rhwng y rhai sy'n trefnu'r rhaglen a'r Golygydd Mygedol, i sicrhau cytbwysedd rhwng y darlithiau sy'n deillio o'r rhaglen ac erthyglau sydd wedi'u comisiynu.

Cyflwynodd Dr Brynley Roberts ei ddymuniad i ymddeol fel Golygydd Mygedol y Bywgraffiadur Cymraeg a dymuna'r Cyngor nodi ei gerthfawrogiad o'i gyfraniad helaeth dros blynnyddoedd lawer at lwyddiant y gyfrol. Wrth nodi y dasc anferthol o chwilio am olynnydd a fyddai'n fodlon i ymgymeryd a'r holl gyfrifoldebau, mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i gynnig gan Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru (CUCCPC) a'r Llyfrgell Genedlaethol i gynnal prosiect lle bydd yr Athro Dafydd Johnson a'r Athro Aled Gruffydd Jones yn gyd-Olygyddion â'r Llyfrgell Genedlaethol yn gweithio ar wefan y Bywgraffiadur Cymraeg gyda chymorth staff CUCCPC, a fydd yn derbyn cyfrifoldeb am gynnwys y cyfraniadau a safonau golygyddol. Bydd cais yn cael ei wneud am gyllid allanol ond mae posibilrwydd y bydd rhaid i'r Gymdeithas gyfrannu tuag at costau digideiddio y Llyfrgell Genedlaethol er mwyn sicrhau fod y gwaith yn symud yn ei flaen yn ystod 2014. Bydd y Gymdeithas yn cadw cysylltiad clos gyda delwedd brand y cyhoeddiad.

Fel y nodwyd gan y Trysorydd Mygedol, mae cyllid y Gymdeithas yn dal yn iachus gydag incwm yn dal i fod yn fwy na gwariant. Mae'n foddhaol i nodi y cynnydd yn yr incwm oddi wrth *Gift Aid* a'r cynilion a wnaethpwyd drwy'r twf yn y defnydd o ebost a thrwy dalu'r tanysgrifiadau drwy Ddebid Uniongyrchol. Fel yn y gorffennol, mae'r incwm sy'n deillio o'r tanysgrifiadau yn angenrheidiol ac er y bu cynnydd bychan yn yr aelodaeth, yn deillio'n uniongyrchol o'r wefan, rhaid pwysleisio yr angen i ddenu aelodau newydd a rôl bwysig yr aelodaeth presennol yn hyn.

Mae'n foddhaol hefyd, fod cynnydd yn y nifer o aelodau, o bob oedran, sy'n ymweld â'r wefan. Mae'r sustem bresennol wedi bod yn gweithredu ers tair blynedd ac am hyn, cydnabyddwyd gan y Cyngor yr angen i ddynodi cyllid i sicrhau diweddarau cyson y wefan. Felly, gofynwyd am gynllun busnes i'w gyflwyno i'r Cyngor, yn ol canllawiau cyllidol y Gymdeithas, yn archwilio gwariant ar welliannau a chostau cyfredol yn erbyn budd cyllidol.

Mae'r Cyngor yn archwilio i'r posibilrwydd o neilltuo rhan o'r asedau i ddatblygiad cyfnod hir ac i welliannau cyson mewn addysg yng Nghymru. Bu trafodaethau gyda'r *Economic and Social Research Council* (ESRC) am gynllun i gynnal un o fyfyrwr yr ESRC, ac fel cam cyntaf rhoddwyd gwahoddiad i'r *Wales Institute of Social and Economic Research* (WISERD) i wneud sylwadau ar y maes o botensial yr ymchwil.

Mae cysylltiad o'r math yma yn union ag amcanion elusenol y Gymdeithas ond derbyniwyd y bydd angen archwiliad manwl a chyson o'r cyllid ac angen i drafod meddiant yr ymchwil.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd y seremoni, ym mis Medi, i gyflwyno Medal y Gymdeithas i Syr Martin Evans FRS, cyd-ennillydd Gwobr Nobel mewn Ffisioleg a Meddygaeth yn 2007. Cyflwynwyd y fedal gan Syr John Meurig Thomas FRS. Mae Syr Martin yn gyn-Athro Adran Mamalaidd a Geneteg a Chyfarwyddwr Ysgol Bio-wyddoniaeth Prifysgol Caerdydd. Apwyntiwyd yn Llywydd y Brifysgol yn 2009 ac yn Ganghellor yn 2012. Cyflwynwyd y fedal mewn seremoni yn y Gymdeithas Frenhinol o flaen cynulleidfa yn cynnwys aelodau'r Gymdeithas a cynrychiolwyr o gymdeithasau Llundain a chyd-weithwyr proffesiynol Syr Martin.

Derbyniwyd rhestr o gofebau o dan ofalaeth rhannol y Gymdeithas a phenderfynwyd i ganiatau cyllid ar gyfer adnewyddu y gofeb i Goronwy Owen yn Eglwys y Santes Fair, Northolt. Cynghorwyd y Gymdeithas o'r posibilrwydd y bydd angen gwaith ymhen amser, ar y gofeb i Morisiaid Môn ar Ynys Môn.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd cysylltiadau gwresog gyda chymdeithasau Cymraeg Llundain, sef Cymru yn Llundain a Chymdeithas Sir Drefaldwyn, sydd yn cynnal darlithiau ar y cyd â'r Gymdeithas. Bu hefyd cysylltiad clos gyda Chanolfan Cymry Llundain, yn enwedig cyfraniad y Gymdeithas i'r Wyl Lenyddol flynyddol a gynhaliwyd ym mis Hydref, a'r posibilrwydd o rannu gweithle yn y Ganolfan. Cafwyd cysylltiadau hefyd, gyda'r sefydliad newydd Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Victoria Street a fu mor garedig a chynnig ystafell ar gyfer cyfarfodydd bychain.

Nodwyd a thristwch gan y Cyngor y newyddion am farwolaeth Marcwis Môn, un o Is-Lywyddion y Gymdeithas ers llawer blwyddyn ac hefyd marwolaeth Gwenda Vaughan Thompson a apwyntiwyd yn Is-Lywydd wedi blynyddoedd lawer o wasanaeth ar y Cyngor. Cafwyd cadarnhad o ymroddiad Gwenda Thompson i'r Gymdeithas gyda rhodd i'r Gymdeithas o'r ystad. Diolchwyd yn daer amdano.

Hoffai'r Cyngor rhoi ar goedd ei werthfawrogiad o wasanaeth neilltuol Clive Jones-Davies, D Ben Rees a Cecil Roberts sydd wedi nodi ei dymuniad i ymddeol o'r Cyngor.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2013 etholwyd yr Athro Prys Morgan yn Llywydd y Gymdeithas ac ail-etholwyd yr Is-Lywyddion presennol.

Etholwyd yr aelodau canlynol fel aelodau o'r Cyngor:

Kenneth Kyffin, Dr Rhian Davies, Dr Adrian Morgan, Jenkin Thomas, a Dr Sara Elin Thomas. Yn ystod y flwyddyn cyfetholwyd yr Athro Gruffydd Aled Williams fel aelod o'r Cyngor am gyfnod o flwyddyn.

**Peter Jeffreys**  
**Ysgrifennydd Mygedol**

**Ebrill 2014**